

CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL

	<p style="text-align: center;">Cofnodion o gyfarfod o Gyngor Cymuned Llansantffraed a gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos Fawrth, 7fed Rhagfyr 2021 yn Festri Capel Siloh, Llanon</p> <p>Yn bresennol: Cadeirydd: y Cynghorydd Phil Tomlins; y Cynghorwyr Sheila Davies, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Andrew Phillips, Aled Roberts, Bryan Tomlins a Lowri Jones.</p>	<p style="text-align: center;">Minutes of a meeting of Llansantffraed Community Council held at 7:30 pm on Tuesday, 7th December 2021 at the Siloh Chapel Vestry, Llanon</p> <p>Present: Chairman: Phil Tomlins; Councillors Sheila Davies, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Andrew Phillips, Aled Roberts, Bryan Tomlins and Lowri Jones.</p>
<p>726</p>	<p>Ymddiheuriadau Ymddiheurodd y Cynghorwyr Jim Hughes a Lodwick Lloyd, y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards a Mr Denfer Morgan (Clerc), am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.</p>	<p>726 Apologies Councillors Jim Hughes and Lodwick Lloyd, County Councillor Dafydd Edwards and Mr Denfer Morgan (Clerk) apologised for their inability to attend the meeting.</p>
<p>727</p>	<p>Trafod gyda PCSO Charlotte Carter Trafodwyd gwahanol faterion o ddiddordeb i'r gymuned gyda'r PCSO. Eglurwyd y byddai'r car sydd wedi'i barcio ers misoedd ar gornel Stryd yr Eglwys yn cael ei symud gan yr heddlu cyn bo hir.</p>	<p>727 Discussion with PCSO Charlotte Carter Various matters of interest to the community were discussed. It was explained that the car that has been parked for months on the corner of Stryd yr Eglwys and would be removed by the police shortly.</p>
<p>728</p>	<p>Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar 2il Tachwedd 2021. Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2il Tachwedd 2021 fel rhai cywir wedi cywiro cofnod 716a) yn y fersiwn Saesneg.</p>	<p>728 Minutes of the Monthly Meeting held on 2nd November 2021. The Minutes of the Meeting of the Council held on 2nd November 2021 were confirmed as being a correct record once minute 716a) had been corrected to read "the annual inspection hadn't been undertaken by Wickstead".</p>
<p>729 a) b)</p>	<p>Materion yn codi o'r Cofnodion a) Cofnod 714 e) – nodi bod y Cyngor Sir wedi ateb gan ddweud nad oedd arian ar gael i gynnal ymgynghoriad parthed newid ardal gadwraeth. b) Cofnod 721 – nodi na dderbyniwyd ymateb gan y Cynghorydd perthnasol.</p>	<p>729 Matters arising from the Minutes a) Minute 714 e) – to note that the Council had replied that there was no funding available to hold a consultation in respect of changing a conservation area. b) Minute 721 – to note that no reply had been received from the Councillor.</p>

<p>c) Cofnod 722 – nodi na dderbyniwyd ateb gan perchennog y tir. Nodwyd mai enw cywir yr eiddo yw Pen Graig.</p> <p>d) Cofnod 725b) – nodi bod adeiladu'r tai newydd yn Stryd y Neuadd wedi peidio am y tro.</p> <p>e) Cofnod 725c) – nodi bod y map yn barod ac unwaith y bydd copi electronig ar gael bydd modd ei argraffu. Cytunwyd i gynnwys manylion y Cynghorwyr ar y cefn.</p> <p>f) Cofnod 725d) – nodi bod y Cynghorydd Andrew Phillips wedi cael gair gyda'r perchennog ac wedi cael ar ddeall fod y draen sydd wedi'i flocio ar dir Ty Mawr sydd bellach ar werth. Nodwyd y byddai'r Cyngor Sir yn ymchwilio i'r rhan o'r broblem sydd ar dir y Cyngor. Penderfynwyd aros i glywed mwy.</p> <p>g) Cofnod 725e) – i gadarnhau bod polisi yswiriant y Cyngor wedi'i newid i gynnwys y chalet newydd.</p>	<p>c) Minute 722 – to note that no reply had been received from the landowner. Note that the correct name of the property is Pen Graig.</p> <p>d) Minute 725b) – to note that the building of the new dwellings at Stryd y Neuadd had ceased for the time being.</p> <p>e) Minute 725c) – to note that the map was ready and once an electronic version was available it would be printed. Agreed to include Councillors' details on the back.</p> <p>f) Minute 725d) – to note that Councillor Andrew Phillips had had a word with the landowner and was told that there was a blocked drain on the land of Ty Mawr which is now for sale. Noted that Ceredigion County Council would investigate the part of the problem that is on their land. Resolved to wait to hear more.</p> <p>g) Minute 725e) – to confirm that the Council's insurance policy has been revised to include the new chalet.</p>
<p>730 Eiddo</p> <p>a) Nodwyd bod y mwsogl yn y parc chwarae wedi cael ei chwistrellu ond bod y matiau diogelwch yn parhau i godi. Nodwyd bod angen garddwr mor fuan â phosib i geisio lleihau y broblem. Penderfynwyd rhoi cais ar Facebook. Nodwyd bod angen trwsio'r glwyd pump bar sy'n rhoi mynediad i'r cae a chynigiodd y Cynghorydd Andrew Phillips ei help i ddiogelu'r gât.</p> <p>b) Nodwyd bod cwmni Morgan Construction wedi cysylltu a chynnig dyddiau y gallent wneud y gwaith o osod y meinciau a'u bod wedi gofyn am fesuriadau. Nodwyd bod y fframiau cadw beiciau yn nwylo'r datblygwr ac yn aros i gael eu paentio.</p> <p>c) Nodwyd bod archwiliad o'r parc chwarae gan Wicksteed wedi'i drefnu. Nodwyd bod awgrym wedi dod gan y gymuned y gellid gosod hysbysfwrdd i fyny yn y Chalet ond a fyddai yn fwy perthnasol i bobl gwyliau. Awgrymwyd y gellid cynnwys panel gwybodaeth am y</p>	<p>730 Property</p> <p>a) It was noted that the moss in the playground had been sprayed but that the safety mats were lifting badly. It was noted that a gardener was needed as soon as possible to stop the problem worsening. It was decided to put out a request for this on Facebook. It was noted that the five bar gate into the field needed mending, and Councillor Andrew Phillips offered to secure the gate.</p> <p>b) It was noted that Morgan Construction had been in touch to say which days they could install the benches and had requested the measurements. It was noted that the bicycle racks were now with the developer and waiting to be painted.</p> <p>c) Noted that a playground inspection by Wicksteed had been arranged. Noted that a suggestion from the community had been received to put up a noticeboard in the Chalet, with notices that would be relevant to holiday makers. It was suggested that an information</p>

	<p>lleiniau yno hefyd. Nodwyd hefyd bod cais ar gyfer cael powlen ddŵr i gŵn ger y Chalet wedi'i wneud. Penderfynwyd rhoi hyn ar agenda y cyfarfod canlynol.</p> <p>e) Nodwyd bod Pwyllgor Neuadd a Meysydd Chwarae'r Pentref wedi cytuno i werthu darn o'r cae ar gyfer ehangu'r parc chwarae am £500. Cytunwyd i dderbyn y pris hwn. Nodwyd hefyd eu dymuniad i gael yr un gwaith papur â'r tro diwethaf.</p> <p>f) Parthed dyfodol 'Monty Sid' nodwyd bod gwahanol syniadau wedi'u trafod ond penderfynwyd mai'r un mwyaf ymarferol fyddai i osod y cerrig mewn concrît lliw. Gallai unrhyw gerrig dros ben gael eu rhoi i'r ysgol. Penderfynwyd cynnwys hyn ar agenda y cyfarfod canlynol.</p> <p>g) Nodwyd bod y coed yn parhau i orhongian ym maes parcio ardal y Waun.</p> <p>h) Nodwyd bod y Cyngor ar fin rhyddhau'r contract ar gyfer y llwybrau cyhoeddus. Penderfynwyd dechrau'r cytundeb ym mis Ionawr gan gynnwys y cymal : <i>Cyfnod y cytundeb hwn yw 1 Ionawr at 31 Hydref 2022, gyda'r opsiwn i'w adolygu yn 2023-24 a 2024-25.</i> Pwysleisiwyd bod angen edrych ar esiamplau o waith y contractwyr. Nodwyd bod angen pwysleisio bod clirio a chymryd y gwastraff glaswellt a draen ymaith yn rhan o'r cytundeb. Penderfynwyd anelu at ddewis contractwr yng nghyfarfod mis Ionawr.</p>	<p>board about the slangs could be put there also. It was noted that a request had been made to place dog bowls for water at the Chalet. It was decided to include this in the agenda of the following meeting.</p> <p>e) It was noted that the Village Hall and Playing Fields Committee had agreed to sell part of the field for the expansion of the playground for £500. It was agreed to accept this purchase price. Their request to draw up the same paperwork as before was noted.</p> <p>f) Regarding the future of 'Monty Sid' it was noted that various ideas had been discussed but that it had been decided that the most practical one was to place the stones in coloured concrete. Any left over stones could then be given to the school. It was decided to include this on the agenda of the following meeting.</p> <p>g) It was noted that there was still a problem with overhanging trees in the Waun area car park.</p> <p>h) It was noted that the Council was about to put the footpath contract out to tender. It was resolved to begin the contract in January and to include the clause: <i>The duration of this contract is from 1st March to 31st October 2022, with an option to review in 2023-24 and 2024-25.</i> It was emphasised that examples of contractors' work should be provided. It was noted that it should be emphasised that any excess grass and brambles should be cleared and taken away. It was resolved to aim to choose a contractor in the January meeting.</p>
731	<p>Materion Cyllidol PENDERFYNWYD talu'r canlynol: Dan Lewis - £860 <i>Cyflog y Clerc (Hyd-Tach-Rhag):</i> Denfer Morgan - £636.48 CthEM (TWE) - £159.12</p>	<p>731 Finance Matters It was RESOLVED to pay the following: Dan Lewis - £860 <i>Clerk's Salary (Oct-Nov-Dec):</i> Denfer Morgan - £636.48 HMRC (PAYE) - £159.12</p>
732	<p>Materion Cynllunio Ni dderbyniwyd materion cynllunio i'w trafod.</p>	<p>732 Planning Matters There were no planning matters to discuss.</p>

<p>733</p> <p>a)</p> <p>b)</p> <p>c)</p>	<p>Materion Amrywiol</p> <p>Diweddariad ar brosiectau cymunedol Tai Wales and West – gweler cofnod 730b). Nodwyd bod hysbysfwrdd newydd ar gyfer Cylch Peris wedi'i archebu a bod rhywun ar gael i ofalu am yr allwedd.</p> <p>Cais i ddarparu lle chwarae yn Nebo – gweler cofnod 729b).</p> <p>Cais Menter Cydweithredol Tafarn Dyffryn Aeron i'r Cyngor brynu cyfranddaliadau yn y fenter cydweithredol. Cyflwynwyd y cais gan y Cyngorydd Lowri Jones gan egluro fod ganddi fuddiant personol yn y cais. Penderfynwyd gwrthod y cais.</p>	<p>733</p> <p>a)</p> <p>b)</p> <p>c)</p>	<p>Miscellaneous Matters</p> <p>Update on the Wales & West Housing community projects – see minute 730b). Noted that a new noticeboard for Cylch Peris had been ordered and someone was available to look after the key.</p> <p>Request for provision of a playground at Nebo – see minute 729b).</p> <p>Request of Tafarn Dyffryn Aeron Co-operative Enterprise for the Council to buy shares in the enterprise. Councillor Lowri Jones presented the request and explained that she had a personal interest in the venture. It was resolved to refuse the request.</p>
<p>734</p> <p>a)</p> <p>b)</p> <p>c)</p>	<p>Unrhyw Fater Cymwys Arall</p> <p>Nodwyd bod drysau'r hysbysfwrdd ar y Stryd Fawr wedi cael eu difrodi yn ystod y storm ond bod y Cyngor wedi derbyn pris o £110 i'w trwsio a gobeithid gwneud y gwaith y penwythnos canlynol.</p> <p>Nodwyd bod posibilrwydd o grant o £10,000 gan y Cyngor Sir ar gyfer y parc chwarae os cyflawnid y gwaith cyn 31 Mawrth 2022. Nodwyd bod Pwyllgor y Parc Chwarae wedi cwrdd ac wedi trefnu ymgynghoriad electronig drwy Facebook gyda'r gymuned. Derbyniwyd 56 ymateb. Nodwyd bod y cadeirydd mewn trafodaethau gyda chwmni cyfarpar chwarae Playforce a dangoswyd lluniau o'r cyfarpar y gobeithid eu prynu i'r aelodau. Nodwyd mai y cam nesaf oedd trefnu cyfarfod Zoom gyda'r swyddog priodol yn y Cyngor Sir (Ian Macken) er mwyn trafod y grant.</p> <p>Nododd yr Aelodau bod angen bod yn ymwybodol o anghenion plant anabl a byddai angen cyllid ar gyfer gât mynediad hefyd.</p> <p>Nodwyd bod dyddiad dathlu'r goeden Nadolig wedi'i symud i nos lau oherwydd y storm. PENDERFYNWYD y dylid anfon llythyr o ddiolch i</p>	<p>734</p> <p>a)</p> <p>b)</p> <p>c)</p>	<p>Any Other Competent Business</p> <p>To note that the doors of the noticeboard on the main street had been damaged in the storm but that the Council had received a quote of £110 for the repair work and it was hoped that this work would be done the coming weekend.</p> <p>It was noted that there was a possible grant of £10,000 from the County Council for the playground if the work was completed before 31 March 2022. It was noted that the Play Park Committee had met and had organised an electronic consultation with the community via Facebook. It was noted that 54 responses had been received. It was noted that the chair was in discussion with the playground equipment company Playforce and pictures of the prospective equipment to be bought was shown to members. It was noted that the next step was to arrange a Zoom meeting with the relevant officer in the County Council (Ian Macken) in order to discuss the grant. Members noted the necessity of being aware of the needs of disabled children and that finance would also be needed for an access gate.</p> <p>Noted that the date of the Christmas tree celebration had been moved to Thursday because of inclement weather. RESOLVED that a letter of thanks should</p>

d)	<p>Costcutters am eu rhodd hael o fins peis.</p> <p>Nodwyd bod nant, sy'n llifo o lethr yr ysgol, wedi bod yn achosi problemau llifogydd ar draws yr heol ac sy'n rhewi pan fo'n oer. Mae hyn yn broblem diogelwch ar gyfer henoed y gymuned. Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi'i hysbysu o hyn a byddent yn dod i archwilio'r draen a'r gwter cyn bo hir.</p>	d)	<p>be sent to Costcutters for their generous gift of mince pies.</p> <p>To note that there is a spring flowing out of the school bank which has been causing problems with flooding across the road and icy conditions in cold weather. This is causing a serious safety problem for the community's elderly residents. Noted that the County Council had been informed and would be coming out to inspect the drains and gutter soon.</p>